# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 27 Ebrill 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Addysg ar ôl 16 Oed

**C10 Janice Gregory:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i annog mwy o bobl ifanc i barhau ag addysg ar ôl 16 oed? (OAQ34225)

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn hysbysu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yfory ynglŷn â'r cymorth ariannol arfaethedig i alluogi pobl ifanc i barhau mewn addysg ôl-16. Yn ychwanegol, yr ydym yn ceisio sicrhau, drwy Gyrfaoedd Cymru, bod pob person ifanc yn ymwybodol o'u cyfleoedd dysgu a'r trefniadau mynediad sydd ar gael yn eu hardaloedd hwy ac, i'r rhai sydd mewn gwaith, o'u hawl i gael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio neu hyfforddi.

### Diogelwch Cymunedol

**C11 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch cymunedol? (OAQ34221) [W]

**Y Prif Weinidog:** Un o amcanion allweddol 'Cymru: Gwlad Well' yw datblygu cymunedau cryf a diogel. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r partneriaethau diogelwch cymunedol ac asiantaethau allweddol eraill i ddatblygu strategaethau lleol sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, a'u rhoi ar waith.

### Newidiadau Arfaethedig i Bensiynau Personol Hunan-Fuddsoddi

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y newidiadau arfaethedig i bensiynau personol hunan-fuddsoddi a chynlluniau pensiwn hunan-weinyddu ar Gymru? (OAQ34236)

**Y Prif Weinidog:** Nid yw pensiynau yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dweud wrthym fod y mwyafrif o gynilwyr pensiwn—dros 14 miliwn o bobl—yn aelodau o gynlluniau sydd yn rhydd ar hyn o bryd i fuddsoddi mewn eiddo preswyl. Bydd y rheolau newydd yn gwneud y sefyllfa'n gyfartal i bawb drwy ganiatáu i rai cronfeydd pensiwn arbenigol, megis pensiynau personol hunan-fuddsoddi a chynlluniau pensiwn hunan-weinyddu, y mae tua 200,000 o bobl yn berchen arnynt, fuddsoddi mewn eiddo am y tro cyntaf. Fodd bynnag, i'r mwyafrif llethol o'r bobl hyn, ni fydd llawer o atyniad, os bydd atyniad o gwbl, mewn buddsoddi mewn eiddo, gan fod rhaid i'r holl incwm rhent fynd i'r gronfa bensiwn, ac mae'n rhaid i'r eiddo gael ei werthu cyn y gellir codi arian o'r pensiwn. Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn golygu y bydd mantais drethol o 40 y cant, fel y mae rhai wedi'i awgrymu, gan y bydd cost drethol am unrhyw ddefnydd personol o'r eiddo.

### Statws Cymru yn Ewrop

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am statws Cymru yn Ewrop? (OAQ34230)

**Y Prif Weinidog:** Y mae Cymru'n rhan cyfansoddol datganoledig o'r Deyrnas Unedig, ac y mae'r Deyrnas Unedig yn un o brif aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Cynrychiolir Cymru yng nghalon yr Undeb Ewropeaidd gan swyddfa gynrychiadol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mrwsel.

## Cofrestru Canolfannau Therapi Sglerosis Ymledol

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gofrestru canolfannau therapi sglerosis ymledol gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru? (OAQ34245)

**Y Prif Weinidog:** Daeth Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) i rym ar 1 Ebrill 2002. Byddai angen cofrestru canolfan therapi sglerosis ymledol er mwyn glynu wrth y rheoliadau, sy'n berthnasol i sefydliadau megis canolfannau therapi, fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o'r rheoliadau, yng Nghymru.

Gwnaed y rheoliadau hyn o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac maent yn berthnasol i ysbytai a chlinigau annibynnol yng Nghymru. Yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer cofrestru ac archwilio'r sefydliadau hyn.

## Treisio ar Ddêt

**C15 Sandy Mewies:** A wnaiff Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r rhai sy'n treisio ar ddêt? (OAQ34247)

**Y Prif Weinidog:** Mae pobl yn cael eu treisio ar ddêt fel rheol pan fo rhywbeth wedi'i ychwanegu at eu diod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ymgyrch flynyddol heddluoedd Cymru, 'Spiked', gan ei fod o'r farn bod treisio ar ddêt yn dilyn ychwanegu rhywbeth at ddiod rhywun yn fater difrifol iawn.

Mae addysg yn allweddol hefyd, ac un o'n nodau yw sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at raglenni addysg camddefnyddio sylweddau.